Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Nodyn o ymweliad ysgol

29 Mehefin 2023

**Yn bresennol:**

- James Evans AS
- Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc.

Mae [redacted] yn ysgol dydd arbennig sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn [redacted] ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol [redacted]. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys Anawsterau Dysgu Difrifol, Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig ac Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog.

Dangosodd Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2022 fod gan yr ysgol 104 o ddisgyblion, 63 o fechgyn a 41 o ferched, rhwng 3-19 oed. Mae 15 o athrawon cyfwerth ag amser llawn.

## 1. Trafodaethau gyda Chyngor yr Ysgol

1. Cyflwynodd Cyngor yr Ysgol gyflwyniad PowerPoint. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at rai meysydd lle yr hoffent weld rhai newidiadau:

   - Roedden nhw'n teimlo bod diffyg adnoddau a gofod o'i gymharu ag ysgolion prif ffrwd. Hoffent ddefnyddio mwy o offer mewn gwersi e.e. offer pŵer a llosgwyr bunsen, a theimlir y dylai'r rhai sy'n gallu gael mwy o gyfleoedd i gael mynediad at y mathau hyn o adnoddau. Roeddent hefyd yn teimlo y gellid gwella'r man awyr agored ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella'r ardal.

- Mae'r ysgol yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon ond roedd y disgyblion yn teimlo bod rhai o'r cyfleusterau'n gyfyngedig. Byddai'r disgyblion yn croesawu'r cyfle i gael mwy o elfennau o'r cwricwlwm gan gynnwys Addysg Gorfforol bob wythnos a'r cyfle i gael ystod ehangach o chwaraeon gan gynnwys cysylltiadau â chlybiau allanol.

- Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol un disgybl sy'n sefyll cwpl o arholiadau TGAU, roedd disgyblion yn croesawu'r cyfle hwn ac yn meddwl os ydynt yn gallu y dylid eu hannog i sefyll yr arholiadau oherwydd byddai hyn yn arwain at fwy o gyrsiau'n cael eu hagor yn y coleg. Mae arweinwyr yr ysgol yn creu cysylltiadau â cholegau a fydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion.

- Mae rhai o'r disgyblion wedi cael profiad o ysgol brif ffrwd ond mae'n well ganddynt [redacted] ac roeddent yn gresynu nad oeddent wedi mynd yno'n gynt. Maent yn hoffi bod gyda'u ffrindiau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u deall ac yn cael y cymorth a'r help ychwanegol sydd eu hangen. Hefyd, mae gan yr ysgol hyblygrwydd a dealltwriaeth e.e. ar gyfer apwyntiadau meddygol.

- Mae cryn dipyn o'r disgyblion yn teithio cryn bellter i'r ysgol, ac mae rhai yn ystyried y gall hyn fod yn eithaf aflonyddgar.

# 2. Yr Ysgol a thrafodaethau gyda staff, rhieni a llywodraethwyr

### Addysg gynhwysol

2. Teimlir nad yw anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd yn cael eu diwallu bob amser ac nad ydynt yn cael y cymorth angenrheidiol - mae fel eu bod yn cwympo rhwng y bylchau. Mewn rhai achosion nid yw'r plant a'r bobl ifanc o reidrwydd angen mynychu ysgol arbennig ond nid yw bod mewn addysg gynhwysol yn iawn ychwaith gan nad yw'r cymorth ar gael. Mae angen newid y seicoleg o ran ysgolion prif ffrwd, teimlir eu bod yn ceisio ffitio pob plentyn mewn un blwch.

3. Mae mwy o blant yn mynychu ysgolion arbennig ar ôl gadael yr ysgol gynradd i gael y cymorth sydd ei angen. Fodd bynnag, mae rhieni'n poeni na fyddant yn bodloni'r meini prawf mynediad i gael mynediad i'r ysgolion arbennig ac felly maent yn ofni na fydd ganddynt unman i fynd.

4. Er mwyn i fwy o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu fod yn rhan o addysg gynhwysol, mae angen uwchsgilio yn y gweithlu addysgu. Dylai fod llwybr ADY mewn Addysg Gychwynnol Athrawon, roeddech chi'n arfer gallu gwneud TAR mewn addysg arbennig.

5. Cafodd COVID-19 effaith aruthrol ar ddatblygiad lleferydd ac iaith, sgiliau cymdeithasol, a phlant nad oeddent yn cael eu dysgu sut i ddefnyddio'r toiled. O ran ADY, teimlwyd bod y label yn helpu ond bod hyn yn cymryd amser a bod angen iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Weithiau mae gan rai rhieni eu hanableddau dysgu eu hunain ac maent yn cael trafferth dangos tystiolaeth o hyn a'i gyfathrebu. Yr hyn sydd ei angen yw dull amlasiantaethol, mae angen mwy na dim ond yr ysgol a'r rhiant. Mae angen swyddog cyswllt teulu arnoch i helpu i ymyrryd a chael y sgyrsiau anodd, gallant gynghori ysgolion prif ffrwd ynghylch pa gymorth sydd ei angen i helpu'r teulu. Cyfuniad o system gynhwysiant newydd lle mae'r holl wybodaeth mewn un lle.

*Beth allai helpu:* Hyfforddiant – gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf i athrawon, mae'n bwysig deall bod pob plentyn yn wahanol.

## Capasiti'r ysgol

6. Mae mwy o blant sydd ag anableddau dysgu ac mae cryn dipyn o'u hanghenion yn gymhleth. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 104 o ddisgyblion ac mae'n bwriadu cynyddu hyn i 110 ym mis Medi 2023. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyllid ychwanegol lle y ceir tystiolaeth ac mae system ariannu a meini prawf newydd wedi cael eu rhoi ar waith ond mae angen mwy o arian ar yr ysgolion o hyd. Mae'r uwch dîm arwain bob amser yn dod o hyd i atebion sy'n effeithiol o ran cost a dim ond yn gofyn am gymorth os oes angen gwirioneddol amdano.

7. Mae'n bwysig cael cydbwysedd o ran derbyn mwy o ddisgyblion ond nid ar draul disgyblion presennol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn llawn i'w chapasiti o ran y staff sydd ar gael, a phe bai'n derbyn mwy o ddisgyblion ar hyn o bryd byddai hynny'n achosi problemau â'r disgyblion presennol. Mae'n ymwneud â gofalu am anghenion y disgyblion e.e. gallai fod wyth mewn un dosbarth ond dau mewn dosbarth arall, ni all pob dosbarth gynyddu ei gapasiti gan ei fod yn dibynnu ar anghenion y disgyblion yn y dosbarth hwnnw a gallai newidiadau o ran niferoedd achosi pryder i blant o ran ymdopi â'r newid hwnnw.

8. Mae'r system ADY yn rhy fiwrocrataidd er mwyn cael y cymorth sydd ei angen arnoch i gael sylfaen dystiolaeth ac asesiadau a all fod yn anodd i rieni a staff addysgu eu

defnyddio. Nid yw rhai ysgolion prif ffrwd yn cael eu haddysgu mewn ADY, dyna pam ei bod mor bwysig i athrawon gael hyfforddiant ar hyn. Os nad yw ysgolion yn deall ADY, sut y gallant helpu'r disgyblion?

9. Roedd carfan o fyfyrwyr yn gwneud Addysg Gychwynnol Athrawon a oedd am arbenigo mewn addysgu mewn ysgolion arbennig ond nid yw hyn yn cael ei gydnabod gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

10. Mae'r cymorth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, dylai fod mwy o weithio cydgysylltiedig: allgymorth mewn ysgolion gan gynnwys allgymorth rhwng cyfoedion, personél o ysgolion arbennig yn mynd allan i'r gymuned ac ysgolion prif ffrwd i egluro beth maent yn ei wneud, cynorthwywyr addysgu o glystyrau yn dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion ac uwchsgilio staff.

11. Nid yw'n ymwneud ag arian bob amser, mae'n ymwneud â'r ffordd y mae pob ysgol yn rheoli unigolion, daw'r ethos o'r brig ac os cyflwynir ethos cynhwysol yna bydd disgyblion yn ffynnu.

*Beth allai helpu:* cydnabyddiaeth o'r hyn a ddisgwylir gan staff, yn enwedig cynorthwywyr addysgu. Mae dull haenog ar gyfer cynorthwywyr addysgu, fodd bynnag, yn yr ysgol mae lefel 1 a lefel 3 yn gwneud yr un swydd. Mae'n fwy nag addysgu yn unig, mae gofynion meddygol y mae'n rhaid i'r staff ymdrin â nhw, mae'n ymwneud â chael cydbwysedd o wasanaethau.

## Cymorth i ddysgwyr

12. Mae'r ysgol yn darparu dull cyfannol o ddysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae dull cymunedol yn yr ysgol i roi'r sgiliau i unigolion weithredu yn y gymuned.

13. Mae'r ysgol yn edrych ar y plentyn unigol a'r hyn sydd orau i'w anghenion dysgu ac mae'n cynnig dysgu hyblyg e.e. ystyried pa adeg o'r dydd y maent yn dysgu orau, anghenion iechyd.

14. Mae'r cwricwlwm newydd yn sail ar gyfer cyflwyno addysgu cyfannol ym mhob ysgol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn newydd i Ysgol Penmaes; mae bob amser wedi bod yn rhan o'i chynnwys addysgu. Yn ystod cyfnodau pontio mae'r ysgol yn addysgu plant am hawliau'r plentyn. Mae llais y disgybl yn bwysig iawn, maent bob amser yn cael eu cynnwys mewn sgyrsiau ac mae'r cyngor ysgol yn gryfder.

15. Mae'r dysgu ar wahanol lefelau yn ôl oedran penodol. Mae 14-19 - llwybrau CBAC ar lefel cyn mynediad, lefel mynediad 1, 2, 3 a rhai o lefel 1 - yn cynnig cymwysterau. Cynigir

TGAU i bobl ifanc os oes ganddynt y gallu, fodd bynnag, mae hyn mewn partneriaeth â lleoliadau addysg eraill e.e. yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Weithiau mae rhieni wedi'u drysu ychydig ynglŷn â'r cymwysterau a'r llwybrau gyrfa gwahanol.

16. O fewn yr ysgol mae sgiliau'n cael eu haddysgu'n eang. Mae'r coleg lleol hefyd yn gweithio gyda'r ysgol; mae'n fath o ddull o fentora. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Uned Cyfeirio Disgyblion i sefydlu gweithgareddau allgyrsiol e.e. clwb gwyddoniaeth.

17. Mae symud i'r brifysgol ar ôl 19 oed yn broblem. Mae pobl ifanc yn symud o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yna'n mynd i fyd oedolion. Gall hyn fod yn heriol yn emosiynol ac yn anodd iawn, mae angen gwneud gwaith o ran pontio a'r cymorth allanol sydd ar gael. Mae cludiant i'r coleg yn broblem sylweddol i lawer o ddisgyblion sy'n mynd y tu hwnt i Ysgol Penmaes.

*Beth allai helpu:* Mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol e.e. ysgol, clybiau gwyliau a chyfleoedd lleol i wneud sgiliau bywyd preswyl. Ynghyd â hyn mae gofal seibiant gyda chymorth gofal ychwanegol o ansawdd da i deuluoedd, yn enwedig rhieni sengl.

## Cludiant

18. Nid yw'n rhwystr ond mae rhai materion yn ymwneud yn arbennig â chludiant i'r coleg. Yn aml mae'n anodd cael cyllid ar gyfer cludiant. Mae rhai cwmnïau bysiau hefyd yn canfod ei fod yn gyfrifoldeb enfawr i dderbyn plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini ag anghenion meddygol ac ymddygiadol cymhleth.

19. Mae llawer o ddisgyblion yn teithio hyd at awr i gyrraedd yr ysgol - yn gyffredinol maen nhw'n mwynhau teithio ar fws gan ei fod yn rhan o'u trefn ddyddiol arferol ac maen nhw'n hoffi bod gyda'u ffrindiau.

20. Fel ysgol, roeddent yn canfod ar ôl teithio i'r ysgol nad yw plant bob amser yn barod i ddysgu, felly ym mis Medi 2023 bydd yr ysgol yn treialu system newydd lle bydd y plant rhwng 09.00 a 09.45 yn gwneud gweithgareddau rheoleiddio emosiynau i helpu gyda'u hiechyd meddwl er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ddysgu, mae'n ymwneud â meithrin perthnasoedd a chael agwedd gyfannol at y plentyn, nid yw un ateb yn addas i bawb.

## Bwlio

21. Nid o fewn yr ysgol, mae achrediad arian o ran hawliau ac mae bod yn wahanol a chynwysoldeb yn cael eu derbyn mwy. Fodd bynnag, gall fod rhywfaint o stigma neu

ddiffyg dealltwriaeth o hyd ynghylch ysgolion arbennig, weithiau nid ydynt yn cael eu hystyried yn ysgolion ac mae hyn yn aml oherwydd nad yw unigolion yn gwybod unrhyw beth am y lleoliadau na'r ddarpariaeth a gynigir.

22. Mae llawer o ddisgyblion yr ysgol yn byw mewn lleoliadau gwledig a all arwain at deimlo'n ynysig pan nad ydynt yn yr ysgol.

23. Mae bwlio yn fwy tebygol o ddigwydd mewn ysgolion prif ffrwd a thu allan i leoliad yr ysgol. Mae pobl yn ei nodi’n amlach, mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar wrth-fwlio, mae’n ymwneud ag addysgu disgyblion i gydnabod nad dyna yw’r ffordd y dylech gael eich trin na sut y dylech drin eraill.

*Beth allai helpu:* Mae angen i chi chwalu'r stigma, dylai uwch arweinwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac unigolion eraill ddeall yr hyn y mae ysgolion arbennig yn ei gynnig a bod y disgyblion yn cael eu cynnig yr un addysg ond ei fod yn cael ei darparu mewn ffordd gyfannol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar gyflymder sy’n addas i anghenion pob unigolyn.